# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p3)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheoli Busnes

#### 1. Diben

1.1 Yn ei gyfarfod anffurfiol ar 23 Mai 2006, derbyniodd y Pwyllgor bapur a oedd yn nodi cwestiynau y byddai angen i'r Pwyllgor eu hystyried wrth roi sylw i sut y dylai busnes gael ei reoli yn y Cynulliad ar ôl 2007. Mae'r papur yma'n rhoi gwybodaeth gefndir i helpu'r Aelodau i bwyso a mesur y cwestiynau hynny. Dyma'r adrannau allweddol:

Rheoli busnes y Cyfarfodydd Llawn (gan gynnwys datganiadau o dro i dro a datganiadau wythnosol) – adran 4

Penderfynu ar fusnes y Cyfarfodydd Llawn – adran 5

Amseru'r Cyfarfodydd Llawn ac amserlennu amser y Pwyllgorau – adran 6

Cynnal Cyfarfodydd Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgor yr un pryd, amser penderfynu a phleidleisio – adran 7

#### 2. Cefndir

Y Rheolau Sefydlog Cyfredol

2.1 Ar hyn o bryd, mae busnes yn y Cynulliad yn cael ei reoli drwy gyfrwng Rheolau Sefydlog 5 a 6. Hefyd, mae Rheol Sefydlog 13 yn nodi rôl y Pwyllgor Busnes, sy'n cynnwys cynghori'r Trefnydd ar reoli busnes y Cynulliad.

Y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru

2.2 O ran rheoli busnes, sylwadau ar oriau gwaith yn unig a gyflwynwyd gan adroddiad y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraeth Well i Gymru:

Oriau Gwaith

141. Gellir disgwyl i Gynulliad newydd â phwerau newydd gyfarfod am fwy o

oriau, mewn cyfarfodydd llawn a phwyllgorau. Cyhuddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Cynulliad presennol o beidio â gweithio'n ddigon caled. Yn sicr, mae oriau eistedd y cyfarfod llawn, hyd yn hyn, wedi bod yn gymharol fyr, a chyfarfodydd pwyllgorau'n anaml o gymharu â chyrff seneddol eraill yn y Deyrnas Unedig. Clywsom amcangyfrifon amrywiol ynglyn â'r hyn y byddai ei angen yn y dyfodol. Credai Cadeirydd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cynulliad yn y dyfodol yn ymwneud â busnes ffurfiol am dri diwrnod cyfan yn hytrach na dau fel sydd ar hyn o bryd.[275] Credai Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y byddai pwyllgorau'n cyfarfod "y rhan fwyaf o ddiwrnodau'r wythnos".[276] Credai Arweinydd Plaid Cymru hefyd y byddai angen i'r Cynulliad gyfarfod am "dri diwrnod llawn", a byddai hyn efallai yn codi cwestiynau yn ymwneud â rhai o'r arferion presennol, fel amser cyfarfodydd y pleidiau.[277] Un newid arall i'r arferion, a gefnogid gan Banel y Cadeiryddion, fyddai'r rhyddid i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau yn ystod y Cyfarfod Llawn.[278]

142 Mae'n rhy fuan ar hyn o bryd i ddamcaniaethu ynglyn ag amseroedd eistedd. Ond mae craffu priodol ar ddeddfwriaeth yn siwr o gymryd amser. Gan gymryd mai dim ond tri Gorchymyn Cyfrin Gyngor fydd yn cael eu gwneud bob blwyddyn (dyma amcangyfrif lleiaf y Prif Weinidog), ac mai dim ond un Mesur Cynulliad fydd yn dilyn pob un, mae hyn yn golygu y bydd chwe darn sylweddol o ddeddfwriaeth bob blwyddyn o tua 2008 ymlaen. Gallem ddisgwyl, fan lleiaf, ddeg awr mewn pwyllgor, a thair awr

mewn Cyfarfod Llawn, ar bob un o’r Gorchmynion Cyfrin Gyngor neu’r Mesurau Cynulliad hyn, yn enwedig pan gynhwysir craffu ar fesur cyn y broses ddeddfu. Bydd deddfwriaeth gymhleth neu ddadleuol yn cymryd mwy o amser. O ystyried yr agenda ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu hefyd, mae’n amlwg y bydd effaith sylweddol ar y patrymau eistedd presennol.

[275] Q368

[276] Q6

[277] QQ476, 482

[278] Q324

Mesur Llywodraeth Cymru

2.3 Heblaw ychydig o ofynion rhigolaidd (gweler cymal 31 – Rheolau Sefydlog, cymal 32 – Cyfranogiad Gweinidogion Llywodraeth y DU a chymal 34 – Cyfranogiad y Cwnsler Cyffredinol) nid yw Mesur Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y dylai busnes gael ei drefnu yn y Cynulliad.

Yr Ymagwedd

2.4 Disgwylir yn gyffredinol y bydd angen amserau eistedd hirach i’r Cyfarfodydd Llawn a rhagor o amser i’r Pwyllgorau er mwyn ymdopi â’r cynnydd a ddisgwylir yn y busnes deddfu. Er hynny, efallai na fydd y llwyth gwaith ychwanegol yn digwydd ar unwaith am y bydd yn cymryd amser i Orchmynion y Cyfrin Gyngor gael eu cytuno ac i Fesurau gael eu cyflwyno wedyn. O ganlyniad i hynny, mae’n bosibl y bydd llwyth gwaith blynyddoedd olaf y trydydd Cynulliad gryn dipyn yn fwy na’r flwyddyn gyntaf.

2.5 Hwyrach felly y gallai rhai agweddau ar raglennu busnes gael eu gadael yn fwy agored nag a fyddai’n wir fel arall. Gallai’r agweddau yma gael eu hadolygu (gan y Pwyllgor Busnes / y Biwro / y Pwyllgor Gweithdrefnau) ar adeg briodol yn ystod y trydydd Cynulliad. Mae’r Aelodau eisoes wedi cytuno o ran egwyddor y dylai’r Rheolau Sefydlog gael eu drafftio gyda "lle gwyn rhwng y llinellau" lle bo’n briodol ac mae’n ymddangos bod hyn yn arbennig o berthnasol i’r Rheolau Sefydlog ar reoli busnes.

## 3. Wythnosau Eistedd

3.1 Polisi'r Cynulliad o fod yn gyfeillgar i deuluoedd sy'n ysgogi nifer yr wythnosau y mae'n eistedd, fel nad yw'r Cynulliad yn eistedd yn ystod gwyliau ysgol. O dan Reol Sefydlog 5.1, mae'r Trefnydd yn cynnig amserlenni busnes amlinellol o dro i dro a'r rheiny'n cynnwys y toriadau.

3.2 Yn yr Alban, y Senedd sy'n penderfynu, ar gynnig gan y Biwro, ar ddyddiadau unrhyw doriad seneddol ac mae'n ofynnol i'r Biwro ystyried dyddiadau gwyliau ysgol wrth bwyso a mesur (rheolau 2.3.1 a 2.3.2).

3.3 Mae'r Pwyllgor eisoes wedi awgrymu'n anffurfiol na ddylai nifer yr wythnosau y bydd y Cynulliad yn eistedd gael ei reoli drwy'r Rheolau Sefydlog.

## 4. Rheoli busnes y Cyfarfodydd Llawn (gan gynnwys datganiadau o dro i dro a datganiadau wythnosol)

4.1 Wrth ystyried y materion yma, mae paragraffau 4.2-4.9 yn ystyried rôl Biwro Seneddol a Phwyllgor Gweithdrefnau Senedd yr Alban, gan gynnig rhywfaint o gymhariaeth â Phwyllgor Busnes y Cynulliad. Mae gweithdrefn San Steffan yn cael ei hystyried hefyd.

Senedd yr Alban – Y Biwro Seneddol

4.2 Yn Senedd yr Alban, mae swyddogaethau a rôl y Biwro Seneddol yn cael eu hystyried yn yr un Rheol Sefydlog (Pennod 5) â rheoli busnes. Mae'r Biwro yn cynnwys y Llywydd (sy'n cadeirio'r cyfarfodydd) ac MSPs sydd wedi'u henwebu gan bob un o'r pleidiau gwleidyddol sydd â phump a rhagor o aelodau yn y Senedd. Mae MSPs unigol neu bleidiau bach hefyd yn cael ymuno â'i gilydd i ffurfio grwp o bump neu fwy ac maen nhw'n cael enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y Biwro. Ar hyn o bryd mae gan y Biwro aelodaeth o 8 MSP.

4.3 Mae'r Biwro Seneddol yn cyfarfod yn rheolaidd, yn breifat , i gytuno ar gynigion ar gyfer rhaglen fusnes y Senedd am gyfnod penodedig (sef pythefnos fel arfer). Mae ei swyddogaethau hefyd yn cynnwys cynnig sefydlu, cylch gwaith, aelodaeth a pharhad pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'r amserau cau ar gyfer dod â chyfnodau mesurau i ben. Pan fydd angen pleidleisio ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y Biwro, mae'r bleidlais wedi'i phwysoli yn unol â chynrychiolaeth y pleidiau yn y Senedd.

4.4 Mae awgrymiadau'r Biwro Seneddol, ar ffurf cynigion, yn cael eu hystyried a'u penderfynu yng nghyfarfodydd y Senedd.

4.5 Y prif wahaniaeth rhwng y Biwro a Phwyllgor Busnes y Cynulliad yw bod yr olaf yn ymgynghorol o ran ei natur, yn yr ystyr bod busnes yn cael ei raglennu ar gynnig sy'n cael ei gyflwyno gan y Trefnydd. Yn Senedd yr Alban, mae'r busnes yn cael ei raglennu ar gynnig gan y Biwro Seneddol ac mae pleidleisiau wedi'u pwysoli yn cael eu defnyddio i ddatrys anghytundebau yn y Biwro. Hefyd, nid yw'r Biwro yn ymdrin â materion gweithdrefn, sy'n dod o dan aden Pwyllgor Gweithdrefnau ar wahân.

Senedd yr Alban – Y Pwyllgor Gweithdrefnau

4.6 Fel y nodwyd uchod, mae materion gweithdrefn yn cael eu hystyried gan Bwyllgor ar wahân yn Senedd yr Alban. Rôl y Pwyllgor Gweithdrefnau yw pwyso a mesur arferion a gweithdrefnau Senedd yr Alban mewn perthynas â’i busnes, a chyflwyno adroddiadau arnyn nhw. Mae’r Pwyllgor hefyd yn argymell newidiadau i’r Rheolau Sefydlog a dim ond drwy gyfrwng adroddiadau gan y Pwyllgor Gweithdrefnau y caiff y Senedd gytuno ar newidiadau o’r fath.

4.7 Manteision posibl cael Pwyllgor Gweithdrefnau ar wahân fyddai:

y gallai fod yn llais i’r Cynulliad cyfan;

y byddai’n cael ei weld fel fforwm i aelodau’r meinciau cefn, pe na bai’n cael ei ddominyddu gan beirianwaith/rheolwyr busnes y pleidiau, fel yn yr Alban;

y gallai gyfarfod yn gyhoeddus, gan helpu’r Cynulliad i fod yn fwy agored a thryloyw

na fyddai’n cael ei gyfyngu gan yr angen i gyfarfod bob wythnos;

y byddai mwy o le a mwy o amser i adolygu materion y weithdrefn yn fanwl.

4.8 Anfanteision posibl cael Pwyllgor Gweithdrefnau ar wahân fyddai:

y gallai Pwyllgor o’r fath ddechrau creu gwaith diangen, er nad dyna brofiad Senedd yr Alban;

na fyddai’r Llywydd – sy’n gyfrifol am ddehongli’r Rheolau Sefydlog – yn aelod, pe bai aelodaeth Pwyllgor Gweithdrefnau yr Alban yn cael ei dilyn;

efallai nad oes gan Gymru y capasiti ar gyfer Pwyllgor ar wahân

y byddai’r manteision cyfredol yn cael eu colli – sef cael yr un Aelodau yn ymdrin â materion y weithdrefn ac yn rhaglennu busnes.

Ty’r Cyffredin

4.9 Yn Nhy’r Cyffredin, mae’r busnes yn cael ei reoli gan y Llywodraeth. Mae Arweinydd Ty’r Cyffredin yn cyhoeddi ar ddydd Iau y busnes at yr wythnos ganlynol a’r busnes dros dro ar gyfer yr wythnos wedyn. Busnes y Llywodraeth sy’n cael y flaenoriaeth, ac eithrio dyddiau penodol sydd wedi’u neilltuo ar gyfer busnes y gwrthbleidiau a Mesurau Aelodau Preifat (Rheol Sefydlog 14). Mae amseru’r rhain yn cael eu cytuno drwy’r "sianeli arferol", y trafodaethau anffurfiol rhwng rheolwyr busnes, sef y Llywodraeth a’r wrthblaid swyddogol yn bennaf.

Cwestiynau

C1. Sut caiff busnes y Cyfarfod Llawn ei gytuno o dro i dro / yn wythnosol a pha rôl fydd gan Bwyllgor Busnes / Biwro?

C2. Os bydd yr Aelodau'n penderfynu y dylai'r Cynulliad fabwysiadu model Biwro Seneddol yr Alban, a ddylid cael Pwyllgor Gweithdrefnau ar wahân?

Efallai y bydd yr Aelodau am ystyried Rheolau 5.1-5.9 ac 8.11 o Reolau Sefydlog yr Alban yn fanwl.

O dan reolau 5.4 ac 8.11 o Reolau Sefydlog yr Alban, mae'n werth nodi bod rhaglen arfaethedig Gweithrediaeth yr Alban yn gallu cael ei gwrthod mewn pleidlais. Hefyd, gellir pleidleisio ar welliannau i gynnig busnes, ar yr amod bod yna gefnogaeth iddo gan o leiaf 10 o Aelodau.

C3. Os bydd yr Aelodau'n penderfynu y byddai'n well ganddyn nhw gadw'r model Pwyllgor Busnes presennol:

ydy'r Aelodau am gadw'r system bresennol fel y mae'n gweithio ar hyn o bryd? (sef gydag amserlen gyfnodol, datganiad busnes a Phwyllgor Busnes ymgynghorol)

ydy'r Aelodau am gadw'r system bresennol gydag addasiadau, gan adlewyrchu rhai o arferion Senedd yr Alban o bosibl? e.e. datganiad busnes sy'n paratoi'r busnes bob yn bythefnos.

C4. A fyddai'n well gan yr Aelodau fabwysiadu model yn null San Steffan gyda'r sianeli arferol?

**5. Penderfynu ar fusnes y Cyfarfodydd Llawn**

Y Cynulliad Cenedlaethol

5.1 Yn y Cynulliad, mae busnes y Cyfarfod Llawn yn cael ei ddyrannu gan Drefnydd Llywodraeth y Cynulliad a hynny drwy'r datganaid busnes wythnosol (sy'n rhaglennu'r busnes dair wythnos ymlaen llaw). Wrth wneud hynny, mae cyngor y yn cael ei gymryd gan y Pwyllgor Busnes ac mae'r datganiad yn gorfod cael ei gytuno gan y Cynulliad llawn ar gynnig gan y Trefnydd.

5.2 Wrth benderfynu ar fusnes, mae gofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog yn golygu:

bod o leiaf wyth cyfarfod llawn yn y cyfnod o 12 mis ar gael ar gyfer trafodaethau'r pleidiau lleiafrifol, a'r rheiny wedi'u dosbarthu, cyn belled ag y gellir yn unol â chynrychiolaeth pob plaid (Rheol Sefydlog 6.6).

bod rhaid i 6 chyfarfod llawn o leiaf yn y cyfnod o 12 mis gynnwys amser ar gyfer trafod adroddiadau pwyllgorau pwnc (Rheol Sefydlog 6.6).

bod 30 munud ar gael ar gyfer dadleuon byr sy'n cael eu dewis drwy gyfrwng balot bob wythnos y bydd y Cynulliad yn cyfarfod yn llawn (Rheol Sefydlog 6.42).

bod amser ar gael, o dro i dro, i Aelod gyflwyno cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 31).

5.3 Mae ffigur 1 yn dadansoddi busnes y cyfarfod llawn yn y Cynulliad Cyntaf.

**Ffigur 1: Dadansoddiad busnes y cyfarfod llawn yn y Cynulliad Cyntaf**

| Busnes | Canran o'r amser |
|---|---|
| Dadleuon y Llywodraeth | 32 |
| Cwestiynau | 22 |
| Datganiadau | 16 |
| Deddfwriaeth | 9 |
| Dadleuon y pleidiau lleiafrifol | 9 |
| Dadleuon byr | 7 |
| Dadleuon ar adroddiadau'r Pwyllgorau Pwnc | 3 |
| Dadleuon o dan Reol Sefydlog 6.5 | 2 |

Ffynhonnell: Adroddiad Comisiwn Richard

5.4 Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn cytuno ar awgrym o'r amser ar gyfer pob eitem busnes fel rhan o'r cynnig busnes wythnosol. Er hynny, nid yw'r amserau yma'n cael eu cadw yn fanwl, ac mae'r Llywydd yn caniatáu i ddadleuon poblogaidd barhau y tu hwnt i'r amser a awgrymwyd ar eu cyfer. Yr unig amserau y cedwir atyn nhw yn llwyr yw diwedd y ddadl fer (sef 5pm ar ddydd Mercher fel rheol) a diwedd busnes am 5.30pm (er nad yw hwnnw'n cael ei ddilyn mor gyson â'r diwedd am 5pm). Mewn rhai cyrff seneddol, mae yna amserau penodol i gwblhau eitemau unigol o fusnes, ac ar ôl hynny mae'r ddadl yn cael ei hatal (er eu bod yn cael gorffen yn gynt na'r amser hiraf a ganiateir). Mewn cyrff eraill, mae'r busnes yn cymryd yr amser y mae'n ei gymryd: mae hynny'n golygu nad oes amser gorffen wedi'i bennu.

Senedd yr Alban

5.5 Yn Senedd yr Alban, mae amser y Siambr yn cael ei ddyrannu gan y Biwro Seneddol, gan roi sylw i Reolau Sefydlog y Senedd.

5.6 Gweithrediaeth yr Alban sy'n cael y rhan fwyaf o'r amser dadlau, ond mae'n rhaid i'r Biwro Seneddol sicrhau:

bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i fusnes y pwyllgorau ar 12 hanner diwrnod eistedd ym mhob

blwyddyn seneddol

bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i fusnes a ddewisir gan y pleidiau a'r grwpiau nad ydyn nhw'n rhan o'r Weithrediaeth ar 16 hanner diwrnod eistedd ym mhob blwyddyn seneddol, a hynny mewn cyfrannedd bras â nifer y seddi sydd ganddyn nhw yn y Senedd.

bod yna gyfnod o hyd at 45 munud ym mhob un o gyfarfodydd y Senedd ar gyfer unrhyw Fusnes Aelodau (Rheol 5.6), sydd fel arfer yn cynnwys materion etholaeth / rhanbarth neu faterion o ddiddordeb ehangach y mae cefnogaeth iddyn nhw ar draws y pleidiau.

5.7 Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi cytuno fel rheol fod dadleuon ar Fesurau Aelodau Preifat yn cael eu cynnal fel arfer yn ystod amser a fyddai fel arall yn cael ei neilltuo i'r Weithrediaeth.

5.8 Hefyd, mae'r Biwro Seneddol yn sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer datganiadau gan y Gweinidogion. Mae Rheolau Sefydlog yr Alban yn darparu i Brif Weinidog yr Alban wneud datganiad blynyddol ar raglen ddeddfu'r Weithrediaeth ac amcanion y polisïau arfaethedig (Rheol 5.7) ac mae'r Biwro Seneddol hefyd yn sicrhau bod amser yn cael ei ddarparu, yn ôl yr angen, ar gyfer datganiadau eraill gan y Gweinidogion sy'n cael eu dilyn gan gwestiynau a / neu ddadleuon.

Ty'r Cyffredin

5.9 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.11 uchod, yn Nhy'r Cyffredin mae amser yn cael ei neilltuo ar gyfer busnes y gwrthbleidiau a Mesurau Aelodau Preifat; mae Rheol Sefydlog 14 yn pennu 20 diwrnod ar gyfer busnes y gwrthbleidiau (17 i'r wrthblaid swyddogol, a thri i'r drydedd blaid fwyaf) a 13 dydd Gwener ar gyfer Mesurau Aelodau Preifat, y cytunir arnyn nhw drwy'r sianeli arferol. Bob dydd bydd hanner awr olaf yr eisteddiad yn cael ei neilltuo ar gyfer dadl ohirio (sy'n cyfateb i'r dadleuon byr ni), er y gall mwy o amser fod ar gael os bydd y busnes yn gorffen yn gynnar. Mae'r Aelodau'n cael eu dewis drwy gyfrwng balot, heblaw ar ddydd Iau pan fydd y Llefarydd yn dewis o blith y rhai a fu'n aflwyddiannus yn y balot.

Ystyriaeth

5.10 Dyma gategorïau busnes y Cyfarfod Llawn y bydd angen ystyried eu cynnwys yn ystod wythnos neu ddiwrnod unigol yn y Cyfarfod Llawn ar ôl mis Mai 2007:

Busnes y Llywodraeth: dadl ar gynigion blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer deddfu; dadl ar raglen ddeddfu Llywodraeth y DU; dadl ar Fesurau Llywodraeth y DU sy'n diwygio Atodlen 5 o'r Mesur; dadleuon ar amryw gyfnodau cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion y Cyfrin Gyngor; is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol; datganiadau'r Gweinidogion; dadleuon ar y Gyllideb; dadleuon ar gynigion gan Lywodraeth y Cynulliad.

Cwestiynau: craffu ar Lywodraeth y Cynulliad drwy holi'r Gweinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol; craffu ar Gomisiwn y Cynulliad.

Busnes y gwrthbleidiau: dadleuon y pleidiau bach; cynigion i ddiddymu is-ddeddfwriaeth; cynigion

hyder.

Busnes Aelodau preifat: dadleuon byr; Mesurau a Gorchmynion Cyfrin Gyngor Aelodau Preifat; ceisiadau i Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth;

Amser i'r pwyllgorau: Dadlau ar adroddiadau pwyllgorau pwnc a phwyllgorau sefydlog; Mesurau a Gorchmynion Cyfrin Gyngor y pwyllgorau.

Cwestiynau

C5. Ydy'r Aelodau am gadw'r patrwm busnes hyblyg sydd wedi'i ddefnydio ers 1999 ac a ddisgrifir ym mharagraff 5.4?

C6. A ddylai amserau neu adegau pendant gael eu neilltuo ar gyfer categorïau penodol o fusnes yn y Cyfarfod Llawn neu a ddylai hynny gael ei adael i'r Trefnydd (gyda chyngor y Pwyllgor Busnes) neu i Fiwro benderfynu arno?

C7. Faint o amser a ddylai gael ei ddyrannu i bob categori busnes, o dro i dro neu yn ddyddiol?

C8. Faint o amser ychwanegol y bydd ar y llywodraeth ei angen i fynd â'i

busnes deddfu drwodd ac a ddylid cael cynnydd cyfatebol yn yr amser neu'r cyfleoedd ar gyfer dadleuon byr a dadleuon y pleidiau lleiafrifol yn sgil hynny?

C9. Beth ddylai'r gyfran o fusnes y llywodraeth i fusnes arall fod?

C10. Sut gallai busnes arall heblaw busnes y llywodraeth gael ei ddiogelu? Er enghraifft, a allai busnes y llywodraeth gael ei raglennu fel busnes olaf y dydd?

C11. Sut gallai deddfwriaeth Aelodau Praifat neu ddeddfwriaeth Pwyllgorau gael ei rhaglennu yn yr amserlen? Er enghraifft, a ddylai ddilyn yr arferion presennol fel yn achos y Rheol Sefydlog 31 bresennol, wedi'i diwygio mewn modd priodol?

C12. Pa ddosbarthiadau o fusnes a all gael eu hychwanegu at fusnes wedi'i raglennu ac o dan ba amgylchiadau? (gallai'r enghreifftiau gynnwys datganiadau, cynigion i ddiddymu is-ddeddfwriaeth).

5.11 Wrth i benderfyniadau gael eu gwneud mewn meysydd eraill, mae'n debyg y bydd y Pwyllgor am ailystyried rhai o'r materion yma.

## 6. Amseru'r Cyfarfodydd Llawn ac amserlennu amser y Pwyllgorau

Y Cynulliad Cenedlaethol

6.1 Yn y Cynulliad, mae Rheol Sefydlog 5.1 yn pennu bod Cyfarfodydd Llawn i'w cynnal fel rheol

ar brynhawn dydd Mawrth a phrynhawn dydd Mercher. Mae cylch y Pwyllgorau yn ffitio o amgylch yr amserau yma ond nid yw'n cael ei reoli drwy gyfrwng y Rheolau Sefydlog. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgorau yn cyfarfod ar ddydd Mercher a dydd Iau. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod bob bore Mawrth a'r Pwyllgorau Rhanbarth, pan fyddan nhw'n cyfarfod, ar fore dydd Gwener.

6.2 Ar hyn o bryd, does dim cyfyngiad ar ba bryd y caiff y Pwyllgorau gyfarfod, ac eithrio i gydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 5.2 ynglyn â theuluoedd. Er hynny, mae confensiwn wedi datblygu bod cyfarfodydd Pwyllgorau'n cael eu rhaglennu, a bod rhaid i unrhyw wyriad oddi wrth y rhaglen gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Busnes.

6.3 Dyddiau etholaeth yw dydd Llun a dydd Gwener, ac eithrio pan fydd y Pwyllgorau Rhanbarth yn cyfarfod ar ddydd Gwener, er nad yw hyn wedi'i bennu yn y Rheolau Sefydlog.

6.4 O dan Reol Sefydlog 5.2, y nod yw sicrhau bod busnes yn cael ei amserlennu rhwng 9.00am a 5.30pm, er bod yna ddarpariaeth i ymestyn busnes ar ôl 5.30 (Rheol Sefydlog 6.21).

Senedd yr Alban

6.5 Caiff Senedd yr Alban gyfarfod ar unrhyw ddiwrnod eistedd yn ystod yr wythnos seneddol, sydd wedi'i phennu yn y Rheolau Sefydlog fel y cyfnod rhwng 2.30-5.30 ar ddydd Llun, 9.15-5.30 ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau a 9.30-12.30 ar ddydd Gwener (gweler Rheol 2.2.3). Mae yna le i'r Senedd ymestyn yr oriau hyn yn unol â gofynion penodol sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog (gweler Rheolau 2.2.4-2.2.7). Does dim byd yn y Rheolau Sefydlog i bennu pryd mae'r Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal – mae'r adegau yma'n cael eu cytuno ar gynnig gan y Biwro, gan roi sylw i'r Rheolau Sefydlog. Yr arfer yw bod y Cyfarfodydd Llawn yn cael eu cynnal ar brynhawn dydd Mercher a thrwy'r dydd ar ddydd Iau.

6.6 Mae'r mwyafrif o'r pwyllgorau yn cyfarfod bod wythnos neu bob pythefnos, ar fore dydd Mawrth neu ddydd Mercher. Mae'r mwyafrif o gyfarfodydd y pwyllgorau'n cael eu trefnu hyd at 6 mis ymlaen llaw. Mae hyn yn cael ei bennu a'i gytuno gan y pwyllgorau unigol a'i gyd-drefnu gan y Clercod er mwyn sicrhau na fydd gan yr Aelodau, sydd fel arfer yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, gyfarfodydd ar ddyddiadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Gall prynhawn dydd Llun neu ddydd Gwener gael eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ad hoc, ond derbynnir yn gyffredinol fod yr amser yma'n cael ei ddefnyddio i deithio neu ar gyfer busnes etholaeth.

Ty'r Cyffredin

6.7 Mae amserau eistedd Ty'r Cyffredin, yn y brif siambr ac yn Neuadd San Steffan, i'w gweld yn Ffigur 2. Yn ogystal, mae pwyllgorau sefydlog a phwyllgorau pwnc yn cyfarfod fel rheol ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau, a hefyd o 4.00pm ymlaen ar ddydd Llun. Mae'r pwyllgorau'n rhydd i ddewis eu hamserau eistedd eu hunain.

**Ffigur 2: Ty'r Cyffredin, amserau eistedd**

| Dydd | Y Brif Siambr | Neuadd San Steffan |
|---|---|---|
| Llun | 2.30-10.30pm | |
| Mawrth | 2.30-10.30pm | 9.30am-2.30pm |
| Mercher | 11.30am-7.30pm | 9.30am-11.30am / 2.30pm-5.00pm |
| Iau | 10.30am-6.30pm | 2.30pm -5.30pm |
| Gwener | 9.30am-3.00pm | |

Ffynhonnell: Ty’r Cyffredin

Cwestiynau

C13. A oes angen newid Rheol Sefydlog 5.1 i ganiatáu i’r Cyfarfod Llawn eistedd drwy’r dydd, eistedd ar ddydd Iau neu ddechrau yn y bore?

C14. O roi sylw i’r trefniadau cydnaws â’r teulu sydd wedi’u nodi yn Rheol Sefydlog 5.2 ar hyn o bryd, am faint o’r gloch y dylai busnes ddechrau a gorffen?

Efallai y gallai’r Rheolau Sefydlog ganiatáu i fusnes y cyfarfodydd llawn barhau ar amser penodedig (ar ddyddiau penodol) ond heb rwymedigaeth i raglennu busnes hyd at yr amser hwnnw ar unrhyw ddiwrnod. Byddai hynny’n caniatáu hyblygrwydd o ran yr amser gorffen heb fod angen cynnig gweithdrefnol i ymestyn y busnes, er y gallai’r opsiwn gael ei gadw o hyd er mwyn caniatáu ar gyfer eistedd yn hwyr iawn (er enghraifft, i sicrhau bod darn o ddeddfwriaeth yn mynd drwodd mewn pryd).

C15. A ddylai’r Pwyllgorau fod yn rhydd i ddewis eu hamser eistedd eu hunain?

C16. Ydy’r Aelodau am fynd ymhellach a ffurfioli’r wythnos eistedd fel yn Senedd yr Alban ac os felly pa amserau a ddylai gael eu pennu?

## 7. Cynnal Cyfarfodydd Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgorau yr un pryd, amser penderfynu a phleidleisio

7.1 O ran cynnal Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau yr un pryd, y mater allweddol yw a fyddai’n bosibl cynnal Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau yr un pryd neu beidio. Mewn gwirionedd, gyda 60 o Aelodau, fe allai fod yn anhygoel o anodd cynhyrchu rhaglenni gwaith i’r Pwyllgorau a allai ffitio o amgylch busnes y Cyfarfod Llawn, yn enwedig os oes yna Fesurau i graffu arnyn nhw.

7.2 Un ffordd o amgylch hyn fyddai dewis "amser penderfynu" fel yn Senedd yr Alban (er nad yw’r Pwyllgorau’n cyfarfod yr un pryd â’r Cyfarfod Llawn yn y fan honno).

7.3 Anfanteision posibl amser penderfynu yw:

i) na fyddai’n amlwg bod y pleidleisio’n deillio o’r dadleuon a gyflwynwyd

ii) y gallai greu argraff negyddol o’r Cynulliad ymhlith y cyhoedd pe na bai ond dyrnaid o Aelodau yn y Siambr ar unrhyw un adeg.

iii) nad yw’r cyhoedd yn gallu gweld canlyniad unrhyw ddadl ar unwaith wedyn

iv) nad pob penderfyniad sy’n gallu cael ei ohirio, felly byddai angen i’r Rheolau Sefydlog nodi eithriadau, ac fe allai hynny or-gymhlethu pethau. Er enghraifft, allai penderfyniadau ar welliannau i Fesurau ddim cael eu gohirio am y gallai’r gwelliannau dilynol fethu ac na fyddai angen eu trafod felly (yn Senedd yr Alban, mae’r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer 15 o eithriadau – o dan yr amgylchiadau yma, mae’r bleidlais yn cael ei chynnal yn union ar ôl i gynnig gael ei gynnig neu ar ôl i ddadl ar gynnig gael ei chau).

7.4 Mae’r swyddogion o’r farn bod Rheolau Sefydlog 6.22-6.25 ar bleidleisio wedi gweithio’n dda at ei gilydd. Er hynny, efallai y bydd yr Aelodau am ystyried a fyddai’n bosibl mynd â phleidleisiau drwodd "ar amnaid" os na fydden nhw’n ddadleuol, gyda’r Llywydd yn gofyn am weld y rhai a fyddai o blaid a’r rhai a fyddai yn erbyn, a naill ai gwneud y penderfyniad priodol neu, os byddai yna leisiau ar y ddwy ochr, galw am bleidlais. Mantais dull o’r fath fyddai cyflymu penderfyniadau, gan osgoi’r angen am bleidleisiau 57-0 etc. Mae gweithdrefn debyg, sydd wedi gweithio’n dda, yn caniatáu i’r Llywydd ofyn a oes unrhyw un yn gwrthwynebu trafod cynigion gyda’i gilydd. Os yw’n clywed un llais yn gwrthwynebu, mae’n mynnu bod y cynigion yn cael eu trafod ar wahân.

Cwestiynau

C17. A fyddai’n bosibl cynnal Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau yr un pryd?

C18. A fyddai’n ddymunol dod ag amser penderfynu i mewn, fel yn yr Alban?

C19. A oes angen i bob pleidlais gael ei chynnal yn electronig?

## 8. Ystyriaeth – Materion Manwl

8.1 Mae Atodiadau 1 i 3 yn bapurau gwaith sy’n tanlinellu rhai o’r materion manwl y bydd y Clercod yn eu cymryd i ystyriaeth wrth ail-ddrafftio Rheolau Sefydlog 5, 6 a 13.

8.2 Technegol o ran eu natur yw rhai o’r materion a bydd y Clercod yn eu cymryd i ystyriaeth wrth ysgrifennu’r Rheolau Sefydlog i’r Pwyllgor gytuno arnyn nhw. Mae’r atodiadau hefyd yn cynnwys cwestiynau penodol i’r Aelodau eu hystyried.

8.3 Gwahoddir yr Aelodau felly i gyflwyno sylwadau ar y materion manwl i’w cynnwys wrth i’r Rheolau Sefydlog yma gael eu hailddrafftio.

## 9. Camau i'w cymryd

9.1 Gwahoddir yr Aelodau:

i gytuno ar ymagwedd at Gwestiynau 1-19 uchod

i ystyried / cytuno ar y materion manwl sydd wedi'u tanlinellu yn Atodiadau 4 i 6.

Uned Gweithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006